# DEDDF TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

**Rhan 3 – Gwarediadau Trethadwy a Wneir ar Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig**

***Pennod 2 – Y Dreth sydd i'w Chodi ar Warediadau Trethadwy***

**Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi**

***Adran 14 – Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy***

31. Mae'r adran hon yn nodi'r dull o gyfrifo swm y dreth sydd i'w godi ar warediad trethadwy a wneir ar safle tirlenwi awdurdodedig. Mae'n darparu y bydd cyfradd safonol o TGT a chyfradd is o TGT, a fydd yn gymwys i ddeunydd cymwys (fel y'i diffinnir yn adran 15) a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau (fel y'u diffinnir yn adran 16); ac y bydd cyfraddau'r dreth yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau.

32. Cyfrifoldeb gweithredwr y safle tirlenwi yw sicrhau y caiff y gyfradd dreth gywir ei chodi ac y telir y swm cywir o dreth i ACC ar gyfer pob gwarediad ar ei safle.